

Tasg 2

Yr ŵyl (3)

Llythyr

1. Pa fath o arddull sydd i'r darn? Ticiwch yr ateb cywir.
 - a. disgrifiadol
 - b. ffurfiol
 - c. barddonol
 - ch. tafodieithol

Copiwch eiriau ac ymadroddion i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

Pam mae'r arddull yma'n addas i'r darn?

2. Mae Lee yn bwriadu cynnwys y darn hwn yn y llythyr ond, cyn gwneud, mae angen cywiro'r atalnodi a'r treiglo.

Cywirwch y darn.

[Cliw: mae'r geiriau "elusen" a "hosbis" yn fenywaidd.]

Fel y gwyddoch, mae'n siwr, rydym yn ysgol gweithgar iawn ac mae'r disgyblion bob amser yn awyddus iawn i godi arian at elusennau Rydym yn dewis elusen gwahanol i'w chefnogi bob blwyddyn a, gan fod yn rhaid i'r hosbis godi llawer iawn o'r arian sydd ei angen i'w rhedeg yn effeithiol, penderfynom mai dyma'r elusen roeddem am ei chefnogi eleni. Mae'n elusen lleol gwerth chweil ac mae'n gwneud llawer o gwaith dda yn yr ardal. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi codi cymaint?

Ble byddai'r lle gorau i gynnwys y paragraff?

- a. ar ddechrau'r llythyr
- b. rhwng paragraff 1 a 2
- c. rhwng paragraff 2 a 3
- ch. rhwng paragraff 4 a 5

Rhowch resymau dros eich ateb.